

# U4 ERP Tasgau Llif Gwaith

Canllaw i Ddefnyddwyr

Fersiwn 1.0



[sirgar.llyw.cymru](http://sirgar.llyw.cymru)  
[carmarthenshire.gov.wales](http://carmarthenshire.gov.wales)

## Cynnwys

CAEL MYNEDIAD AT DASGAU LLIF GWAITH .....	3
GWEITHREDU TASG LLIF GWAITH.....	3

# CAEL MYNEDIAD AT DASGAU LLIF GWAITH


Mae chwe math o dasgau llif gwaith:

- Gwirio Anfonebau
- Awdurdodi Archebion
- Awdurdodi Anfonebau Cyflenwyr/Awdurdodi Anfonebau Prynu (dim ond pan fydd anfonebau sy'n gysylltiedig ag Archebion Prynu dros y goddefiant (2.5%))
- Awdurdodi Anfonebau Dyledwyr
- Awdurdodi Ffurflenni Cyflenwyr Newydd
- Cymeradwyo Taflenni Amser (Peirianeg a Dylunio Eiddo YN UNIG)

Tasgau eraill y gallech hefyd eu gweld yw tasgau derbynebu nwyddau coll. Gweler ein canllaw derbynebu nwyddau i gael cymorth.

Dylech gael neges e-bost pan fydd tasgau'n aros am gael eu hawdurdodi. Bydd dolen yn y neges e-bost sy'n mynd â chi i sgrin fewngofnodi Unit4 ERP, ond gallwch hefyd fewngofnodi i Unit4 ERP drwy eich ffordd arferol os ydych yn dymuno gwneud hynny.


Pan fyddwch yn mewngofnodi i U4 ERP, mae'r tasgau wedi'u lleoli ar gornel dde uchaf sgrin y brif ddewislen, sef yr eicon tic (mae hyn hefyd yn weladwy pan fyddwch chi yn unrhyw ran arall o'r system). Bydd blwch oren wrth ymyl yr eicon sy'n nodi nifer y tasgau sy'n aros am gamau gweithredu. Cliciwch ar yr eicon i weld yr holl dasgau. Os nad oes rhai gennych, ni fydd yr eicon oren yn ymddangos.



## GWEITHREDU TASG LLIF GWAITH


I agor Tasg Llif Gwaith, cliciwch ar y dasg yr hoffech ei gweld. Os oes gennych fwy nag un o'r un tasgau yn aros i gael eu cymeradwyo, byddant yn ymddangos ar ochr dde'r sgrin gymeradwyo.

Ar y sgrin hon, fe welwch fanylion côd cost, ynghyd â delwedd o'r anfoneb (os yw'n awdurdodiad anfoneb). Gallwch glacio ar y ddelwedd i'w gwneud yn fwy o faint.



Unwaith y byddwch wedi gwirio'r holl fanylion ar y sgrin awdurdodi, gallwch naill ai glacio ar y botwm *Approve* neu *Reject* ar waelod y sgrin.

Ar ôl ichi gymeradwyo'r dasg, bydd y blwch cadarnhau canlynol yn ymddangos, a bydd y dasg yn cael ei thynnu o'ch rhestr o dasgau sy'n weddill.



Os oes angen ichi wrthod yr anfoneb am ba reswm bynnag, bydd blwch sylwadau'n ymddangos, ac mae'n rhaid ichi roi rheswm y gall yr adran dalu gymryd camau gweithredu yn ei gylch. Gwnewch yn siŵr bod eich sylw'n ddefnyddiol, er enghraifft nid yw 'Nid yw hwn i mi' neu 'Mae hyn yn anghywir' yn rhoi gwybodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch llif gwaith, mae croeso ichi gysylltu â [Systemau Ariannol](#)